

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ

Cydbwyllgor Corfforedig
De Ddwyrain Cymru

Tel / Ffôn: 029 2032 0500

Fax / Ffacs: 029 2032 0600

Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

info@audit.wales / post@archwilio.cymru

www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Trwy e-bost

Cyfeirnod: AC372/caf

Dyddiad cyhoeddi: 26 Gorffennaf 2023

Annwyl Gydweithwyr

Sylwebaeth ar gynnydd Cydbwyllgorau Corfforedig – Cydbwyllgor Corfforedig De Ddwyrain Cymru

Yn dilyn fy adroddiad cryno diweddar ar gynnydd y Cydbwyllgorau Corfforedig o ran datblygu eu trefniadau, mae'r llythyr hwn yn nodi'r canfyddiadau sy'n berthnasol i Gydbwyllgor Corfforedig De Ddwyrain Cymru. Mae wedi'i strwythuro'n seiliedig ar y meysydd canlynol fel yr oedd yr adroddiad cryno:

- y ddealltwriaeth am nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cydbwyllgorau Corfforedig
- trefniadau llywodraethu esblygol.
- cynlluniau'r Cydbwyllgor Corfforedig i gyrraedd nodau Llywodraeth Cymru a chyflawni ei rwymedigaethau statudol.
- y berthynas rhwng y Cydbwyllgor Corfforedig a threfniadau partneriaeth presennol.
- cynlluniau'r Cydbwyllgor Corfforedig i ateb ei ofynion dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys pennu ei amcanion llesiant.

Bydd fy nhîm yn hapus i ddod i un o gyfarfodydd y Cydbwyllgor Corfforedig i drafod y canfyddiadau.

Y ddealltwriaeth am nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cydbwyllgorau Corfforedig

- Mae gan Gydbwyllgor Corfforedig De Ddwyrain Cymru ddealltwriaeth glir am nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cydbwyllgorau Corfforedig. Mae'n cofleidio'r cyfleoedd posibl y gallai'r Cydbwyllgor Corfforedig eu darparu ar gyfer y rhanbarth, yn enwedig o ran bod ag un model integredig i ysgogi llesiant economaidd y rhanbarth.

Tudalen 1 o 8 - Sylwebaeth ar gynnydd Cydbwyllgorau Corfforedig – Cydbwyllgor Corfforedig De Ddwyrain Cymru - please contact us in Welsh or English / cysylltwch â ni'n Gymraeg neu'n Saesneg.

- Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi bod yn rhagweithiol wrth godi pryderon ynghylch statws ariannol y Cydbwyllgor Corfforedig a materion canlyniadol eraill ac wedi amlygu effaith ymarferol y materion hyn. Roedd y Cydbwyllgor Corfforedig yn teimlo rhwystredigaeth ynglŷn â chyflymder y broses o ddatrys y materion hyn ac mae hyn wedi effeithio ar allu'r Cydbwyllgor Corfforedig i ganlyn arni â'i gynlluniau fel y byddai wedi hoffi ei wneud.

Trefniadau llywodraethu

- **Ar y cyfan, rwyf wedi fy sicrhau bod y Cydbwyllgor Corfforedig wedi defnyddio dull pwylllog a chymesur o bennu a datblygu ei drefniadau llywodraethu. Mabwysiadodd ddull gweithredu a oedd yn seiliedig ar wneud y mymryn lleiaf tra'r oedd ei statws ariannol a materion eraill yn cael eu datrys, felly nid yw rhai o'r trefniadau hyn wedi datblygu'n llawn nac yn weithredol eto.**
- O'r adeg gynnar ar ôl ei sefydlu, mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi defnyddio dull pwylllog a chadarn o ddatblygu ei drefniadau i gefnogi ei uchelgeisiau.
- Fe benododd ymgynghorwyr cyfreithiol i gynnal arfarniad annibynnol o'r opsiynau llywodraethu a chyflawni ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Cydbwyllgor Corfforedig.
- Ym mis Medi 2021, fe gytunodd ar yr opsiwn 'trosglwyddo yn ei chyfanrwydd' fel y model a ffefrir i bontio Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i un model integredig o fuddsoddi cyhoeddus a llywodraethu economaidd rhanbarthol dan y Cydbwyllgor Corfforedig. Roedd arno eisiau achub ar y cyfle hefyd i symleiddio trefniadau presennol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gan amcanu at weithio'n fwy effeithlon i gyflawni ei flaenoriaethau fel rhanbarth.
- Datblygodd Gynllun Pontio cynhwysfawr i gefnogi'r broses o 'drosglwyddo yn ei chyfanrwydd', a oedd yn cynnwys ystod o ffrydiau gwaith gan gynnwys un a oedd yn canolbwyntio ar lywodraethu. Fe sefydlodd Fwrdd Pontio a hwnnw'n cynnwys aelodau ar draws y Cydbwyllgor Corfforedig a threfniadau'r fargen ddinesig i oruchwylio'r broses bontio. Sefydlwyd bwrdd rhaglen o swyddogion i gefnogi'r Bwrdd yma.
- Fodd bynnag, cafodd y cynllun hwn a'r trefniadau ategol eu hatal am y tro tra'r oedd gwaith i ddatrys y materion o ran statws ariannol a materion canlyniadol yn yr arfaeth.
- Rwy'n cydnabod bod y Cydbwyllgor Corfforedig wedi teimlo rhwystredigaeth fawr ynglŷn â chyflymder y broses o ddatrys y materion hyn. Ac, o ganlyniad, fe wnaeth benderfyniad bwriadol yn y cyfamser i fabwysiadu dull a oedd yn seiliedig ar wneud y mymryn lleiaf tra'r oedd y materion hyn yn cael eu datrys.
- O ran ei drefniadau craidd, mae wedi cytuno ar ei gyfansoddiad a rheolau sefydlog interim, sy'n adlewyrchu ei weithrediad cyfyngedig hyd yma. Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn cwrdd yn rheolaidd. Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn ymwybodol bod angen iddo ddatblygu set lawn a pharhaol o reolau sefydlog a fydd yn cwmpasu ei weithrediad a'i swyddogaethau llawn.
- Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi cynyddu i'r eithaf yr hyblygrwydd i deilwra'i drefniadau. Er enghraifft, mae wedi defnyddio trefniadau presennol i benodi

swyddogion i'r rolau swyddogion statudol ar sail interim. Mae hefyd wedi cytuno i ddefnyddio Pwyllgor Safonau Cyngor Caerdydd fel pwyllgor safonau'r Cydbwyllgor Corfforedig.

- Gan bod y Cydbwyllgor Corfforedig wedi bod yn gweithredu ar sail sy'n golygu gwneud y mymryn lleiaf a bod ei weithgarwch wedi bod yn gyfyngedig hyd yma, nid yw rhai o'i drefniadau'n weithredol eto, er eu bod wedi'u sefydlu ar bapur.
- Mae hyn yn cynnwys ei is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y mae'n ofynnol ei fod ganddo. Fel rhan o'i reolau sefydlog interim, fe gytunodd ar gylch gorchwyl yr is-bwyllgor hwn ym mis Ionawr 2022. Ond o ran y sefyllfa ym mis Mai 2023, nid yw'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi penodi aelodau eto, gan gynnwys aelodau lleyg, i'r is-bwyllgor yma, felly ni fu unrhyw gyfarfodydd hyd yma. Mae'n bwysig ei fod yn gwneud cynnydd o ran sefydlu ei Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel bod craffu a goruchwyliaeth ar sefyllfa ariannol a threfniadau'r Cydbwyllgor Corfforedig, a'i fod wedi ymsefydlu ac yn barod erbyn y bydd rhaglen Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC) yn symud i mewn i'r Cydbwyllgor Corfforedig (yn amodol ar y cymeradwyaethau angenrheidiol i alluogi hyn i ddigwydd), o ystyried y bydd hyn yn cynyddu cyllideb, cyfrifoldeb ac adnoddau'r Cydbwyllgor Corfforedig yn sylweddol.
- Mae'n ofynnol i'r Cydbwyllgor Corfforedig gydweithredu gyda, a chynorthwyo'r gwaith craffu a wneir gan gyrff cyfansoddol neu drwy gydbwyllgor craffu. Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn bwriadu defnyddio'r cydbwyllgor craffu presennol a sefydlwyd ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi digwydd eto ac nid yw cylch gorchwyl y cydbwyllgor craffu wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu hyn. O ganlyniad, hyd yma, nid yw'r cydbwyllgor hwn wedi dwyn y Cydbwyllgor Corfforedig i gyfrif nac wedi craffu arno o gwbl er ein bod yn derbyn mai cyfyngedig fu gwaith y Cydbwyllgor Corfforedig hyd yma. Gwariodd y Cydbwyllgor Corfforedig tuag £83k yn 2022-23 ac fe bennodd gyllideb o £255k ar gyfer 2023-24.
- Wrth i'r Cydbwyllgor Corfforedig ganlyn arni â'i gynlluniau i bontio rhaglen Bargaen Ddinesig Caerdydd i mewn i'r Cydbwyllgor Corfforedig, bydd hi'n hanfodol bod trefniadau effeithiol i'w ddwyn i gyfrif ac i graffu ar ei weithgareddau. Er mwyn cynyddu gwerth y cydbwyllgor craffu i'r eithaf, efallai y byddai'r pwyllgor a'r Cydbwyllgor Corfforedig yn ei chael yn ddefnyddiol bwrw golwg ar fy mhapur trafod ar graffu.
- Mae'r canllawiau statudol ar y Cydbwyllgor Corfforedig yn nodi'r disgwyliad bod y Cydbwyllgor Corfforedig yn sefydlu is-bwyllgorau penodol ar gyfer ei swyddogaethau allweddol. Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wrthi ar hyn o bryd yn pennu trefniadau ei is-bwyllgorau. Mae'n awyddus i achub ar y cyfle hwn i symleiddio a chyfuno trefniadau'r Cydbwyllgor Corfforedig a PRC. Er enghraifft, mae gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd eisoes ystod o is-bwyllgorau a byrddau cynghori, gan gynnwys is-bwyllgor Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol gydag aelodau ar draws y 10 cyngor lleol. Felly, ar hyn o bryd, nid yw'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi cytuno ar ei drefniadau

llywodraethu i gefnogi a goruchwyllo'r broses o gyflawni ei swyddogaethau cynllunio datblygu strategol a chynllunio trafndiaeth rhanbarthol. Deallaf fod adroddiadau i gytuno ar drefniadau ei is-bwyllgorau a symud ymlaen gyda hwy i fod i gael eu hystyried gan y Cydbwyllgor Corfforedig ym mis Gorffennaf.

- Rwy'n derbyn mai cyfyngedig fu gwaith y Cydbwyllgor Corfforedig hyd yma ac na fu ar y Cydbwyllgor Corfforedig eisiau ysgwyddo TAW o 20%, er enghraifft trwy gyflogi staff. Nawr bod y materion o ran ei statws ariannol wedi cael eu datrys, byddwn yn disgwyl i'r Cydbwyllgor Corfforedig fwrw ymlaen â datblygu ei drefniadau llywodraethu a rhoi'r rhain ar waith i helpu i ddarparu'r rhwystrau a gwrthbwysau angenrheidiol ar weithrediad y Cydbwyllgor Corfforedig.
- Rwyf wedi fy nghalonogi bod y Cydbwyllgor Corfforedig wedi adfywhau ei gynllun pontio ac wedi sefydlu Grŵp Llywio newydd i oruchwyllo'r broses o roi'r cynllun hwn ar waith.
- Byddaf yn awyddus i weld sut y bydd trefniadau llywodraethu'r Cydbwyllgor Corfforedig yn datblygu.

Cynnydd ac eglurder cynlluniau

- **Canfûm fod gan y Cydbwyllgor Corfforedig uchelgais clir ar gyfer y rhanbarth gan adeiladu ar waith bargaen ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae wedi datblygu cynllun pontio i gefnogi'r uchelgais hwn. Ond mae cynnydd i gyflawni ei swyddogaethau cynllunio datblygu strategol a chynllunio trafndiaeth rhanbarthol wedi bod yn fwy cyfyngedig.**
- O'r dechrau un, roedd hi'n amlwg bod ar y Cydbwyllgor Corfforedig eisiau cynyddu i'r eithaf yr hyblygrwydd a'r pwerau a roddwyd iddo i fod dull rhanbarthol integredig o ymdrin â datblygu economaidd.
- Roedd y cynllun pontio a ddatblygwyd ganddo i ategu'r broses o drosglwyddo rhaglen bargaen ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ei chyfanrwydd yn cynnwys rhoi ystyriaeth i adnoddau i gefnogi'r broses bontio yn ogystal â'r risgiau a sut allai'r rhain gael eu lliniaru.
- Ar y cyfan, mae'r cynllun yn dangos bod y Cydbwyllgor Corfforedig wedi cwblhau asesiad trylwyr a rhesymegol o'r camau gweithredu allweddol y mae eu hangen i gefnogi'r broses o bontio BDdPRC i mewn i'r Cydbwyllgor Corfforedig erbyn mis Mawrth 2024.
- Ym mis Ionawr 2023, fe gytunodd y Cydbwyllgor Corfforedig ar ei gynllun busnes blynyddol cyfunol cyntaf sy'n cwmpasu'r Cydbwyllgor Corfforedig a BDdPRC ac sy'n tanlinellu ei uchelgeisiau ar gyfer y rhanbarth.
- Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU i drafod yr opsiynau i hwyluso'r broses bontio o ystyried mai cynllun a gyllidir gan Lywodraeth y DU yw'r fargen ddinesig.
- Mae prif ffocws y Cydbwyllgor Corfforedig wedi bod ar hwyluso'r broses bontio hon a'r agweddau ar ei rôl sy'n ymwneud â llesiant economaidd.

- Mae ei gynlluniau i roi cymorth i gyflawni ei gynllun trafndiaeth rhanbarthol (CTRh) a'i gynllun datblygu strategol (CDS) yn llai datblygedig.
- Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn bwriadu adeiladu ar waith yr Awdurdod Trafndiaeth Rhanbarthol i helpu i lunio'i gynllun trafndiaeth rhanbarthol. Mae hefyd wedi ymgysylltu â'r swyddogion cynllunio ledled y rhanbarth.
- Mae Cynllun Busnes Blyneddol y Cydbwyllgor Corfforedig yn nodi mai un o amcanion y Cydbwyllgor Corfforedig yw dechrau gwaith cynllunio cychwynnol ar y cynlluniau hyn. Mae wedi pennu cyllideb gyfyngedig i gefnogi ei swyddogaethau craidd yn 2023-24.
- Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn teimlo bod y cynnydd cyfyngedig ar y CDS a'r CTRh i'w briodoli i'r oedi cyn datrys y materion o ran ei statws ariannol a materion eraill, a'r ffaith nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau terfynol eto. Rwyf wedi codi nifer y bwyntiau ynglŷn â pharodrwydd Llywodraeth Cymru yn fy adroddiad cryno ac rwy'n cydnabod bod y materion o ran statws ariannol yn arbennig wedi effeithio ar allu'r Cydbwyllgor Corfforedig i symud ymlaen, am nad oedd yn dymuno ysgwyddo TAW er enghraifft.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r Cydbwyllgorau Corfforedig ynghylch y swyddogaethau datblygu strategol a chynllunio trafndiaeth felly dylai fod gan y Cydbwyllgorau Corfforedig rywfaint o ddealltwriaeth am y disgwyliadau. Er enghraifft, fe rannodd hysbysiadau cynghori a oedd yn argymhell paratoi'n gynnar ar gyfer y cynlluniau datblygu strategol ym mis Awst 2021. Cynhaliwyd digwyddiad ym mis Ionawr hefyd i drafod swyddogaethau cynllunio'r Cydbwyllgorau Corfforedig.
- Felly, er gwaethaf y materion o ran ei statws ariannol, byddwn wedi hoffi gweld mwy o gynnydd yn y meysydd hyn. Byddwn yn disgwyl gweld cynnydd cyflymach a phellach o hyn ymlaen.
- Yn arbennig, mae'r broses cynllunio datblygu strategol yn gymhleth ac mae angen i'r Cydbwyllgor Corfforedig ddechrau ar hyn. Mae angen ymgysylltu'n llawn ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i drafod sut y bydd y broses hon yn gweithio.
- Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi gwneud cynnydd o ran gweithio i fynd i'r afael â'i ddyletswyddau fel corff yn y sector cyhoeddus, megis ei ddyletswyddau cydraddoldeb, a gofynion o ran y Gymraeg. Mae hefyd wedi cyhoeddi ei gynllun gweithredu ar Dlodi Plant a'i adroddiad cyntaf ar fioamrywiaeth. Wrth i'r Cydbwyllgor Corfforedig symud y tu hwnt i'w gyfnod cychwynnol ac o ystyried ei gyrhaeddiad posibl a'i effaith bosibl yn y rhanbarth, bydd angen iddo sicrhau bod y dyletswyddau hyn yn cael eu hystyried yn weithredol yn ei weithgareddau.

Partneriaethau

- **Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn darparu llwyfan cryf y mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn adeiladu arno, ond nid yw wedi penderfynu sut y gall weithio gyda chyrff a phartneriaethau eraill, gan gynnwys gwneud y gorau o'r ymwneud gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, y tu hwnt i gynllunio datblygu strategol.**

- Rwyf wedi gwneud sylwadau'n fynych ar y dirwedd gymhleth o ran partneriaethau yng Nghymru felly rwyf yn awyddus i weld sut y mae Cydbwyllgorau Corfforedig yn archwilio'u perthynas â phartneriaethau presennol a sut y maent yn gweithio gyda hwy i wneud y gorau o'r adnoddau presennol ac i fynd i'r afael â heriau mewn modd mwy cydweithredol.
- Mae trefniadau BDdPRC yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod o wahanol gyrff gan gynnwys llywodraeth leol, busnesau'r sector preifat ac addysg uwch. Fe wnaeth adolygiad annibynnol SQW o gynnydd PRC yn 2021, a oleuodd adolygiad Gateway Llywodraeth y DU, ganmol ethos partneriaeth cryf PRC.
- Ar hyn o bryd, nid yw'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi cyfethol unrhyw gyrff i'w drefniadau. Rwy'n ymwybodol bod y Cydbwyllgor Corfforedig wedi bod yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch pontio rhaglen PRC i mewn i'r Cydbwyllgor Corfforedig ac y bydd canlyniad hyn yn helpu i lunio'i waith mewn partneriaeth a'i strwythurau partneriaeth yn y dyfodol. Bydd hi'n allweddol bod y Cydbwyllgor Corfforedig yn archwilio sut y gall ymgysylltu â chyrff eraill a gweithio gyda hwy i wneud y gorau o adnoddau ac arbenigedd yn y rhanbarth.
- Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APCBB) yn aelod statudol o'r Cydbwyllgor Corfforedig. Mae rheolau sefydlog interim y Cydbwyllgor Corfforedig yn datgan bod rôl APCBB yn gyfyngedig i'r swyddogaeth gynllunio statudol. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi achub ar y cyfle i gynnwys APCBB yn ffurfiol yn rolau a swyddogaethau eraill y Cydbwyllgor Corfforedig.
- Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn tueddu i gwrdd yn syth ar ôl cyfarfodydd Cydgabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gan bod yr aelodaeth yn cynnwys yr un 10 arweinydd cyngor. Fodd bynnag, nid yw APCBB yn mynychu'r Cydgabinet gan nad yw'n rhan o BDdPRC. Mae'r eitemau ar yr agenda'n aml yn debyg ar gyfer y ddau gyfarfod gan bod y prif ffocws ar drosglwyddo BDdPRC i'r Cydbwyllgor Corfforedig. Mae cyfarfodydd y Cydbwyllgor Corfforedig ei hun wedyn yn tueddu i fod yn weddol fyr gan bod y pynciau'n aml wedi cael sylw yng nghyfarfodydd y Cydgabinet. Ceir risg nad yw APCBB yn cael y cyfle i gyfranogi'n llawn yn y trafodaethau sy'n berthnasol i'r Cydbwyllgor Corfforedig. Mae angen i'r Cydbwyllgor Corfforedig fynd i'r afael â hyn. Ac, wrth iddo roi ei gynllun pontio ar waith, bydd angen iddo benderfynu sut y gall gynyddu i'r eithaf y cyfraniad cadarnhaol y gallai APCBB ei wneud tuag at gyflawni amcanion a swyddogaethau'r Cydbwyllgor Corfforedig, yn enwedig o ystyried bod gan yr APC ofynion sy'n ymwneud â datblygu economaidd hefyd.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Fel y cyrff eraill a enwir yn Neddf LICD, rhaid i'r Cydbwyllgor Corfforedig bennu a chyhoeddi amcanion llesiant. Rhaid iddo weithredu yn unol â'r egwyddor

datblygu cynaliadwy wrth bennu'r amcanion hynny ac wrth gymryd camau i'w cyflawni.

- Fe gyhoeddodd y Cydbwyllgor Corfforedig ei ddatganiad llesiant sy'n cynnwys ei amcanion llesiant yn gynnar ym mis Ebrill 2023. Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi mabwysiadu'r amcanion o Gynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd sy'n tanlinellu uchelgeisiau cyffredin y Cydbwyllgor Corfforedig a PRC, a'r dull integredig i gyflawni'r rhain. Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi bod yn agored bod hwn yn ddull pragmatig gan ei fod yng nghyfnod cychwynol ei weithrediad.
- Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn bwriadu ymgorffori ei amcanion llesiant mewn cynllun corfforaethol yn ystod haf 2023 fel a argymhellir yng nghanllawiau statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Nid wyf wedi cynnal adolygiad manwl i ganfod i ba raddau y mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant.
- Yn seiliedig ar fy adolygiad lefel-uchel o'r datganiad llesiant, gallaf weld ei fod yn cwmpasu elfennau craidd a nodir yn y ddeddfwriaeth. Mae hyn yn cynnwys ei gyfraniad at y nodau llesiant cenedlaethol a sut y bydd yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio. Er enghraifft, ceir pwyslais clir ar ddefnyddio dull integredig gan adeiladu ar nodau a gwaith Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ond ceir ystyriaeth hefyd i amcanion llesiant y cyrff cyfansoddol.
- Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi adnabod rhai meysydd lle gallai gryfhau'r modd y mae'n cymhwyso'r pum ffordd o weithio, megis cynnwys. Rwy'n nodi nad yw'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi ymgynghori ynghylch ei amcanion llesiant ond ei fod yn bwriadu ymgynghori ynghylch ei gynllun corfforaethol yn ystod yr haf. Rwy'n cydnabod nad yw ymgynghoriadau ar gynlluniau a pholisïau drafft wastad yn esgor ar gyfraddau ymateb da. Fel cyrff eraill, bydd angen i'r Cydbwyllgor Corfforedig archwilio ffyrdd eraill o gynnwys y gymuned, megis ymgysylltu â chymunedau'n gynharach mewn trafodaethau neu ddefnyddio gwybodaeth sy'n bodoli eisoes.
- Dylai'r Cydbwyllgor Corfforedig archwilio sut y gallai weithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill, megis y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac archwilio effaith amcanion llesiant y Cydbwyllgor Corfforedig ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.
- Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn defnyddio'r un offeryn Asesu Cenedlaethau'r Dyfodol ag a ddefnyddir gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd i'w helpu i ddangos ei fod yn ystyried y nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio yn ogystal â'i ddyletswyddau cydraddoldeb. Rwy'n derbyn y gall yr offer hyn fod o gymorth. Ond mae angen iddo fod yn fwy na dim ond cynnwys asesiad effaith ar ddiwedd adroddiad. Fe wnaeth fy adroddiad diweddar ar asesu'r effaith ar gydraddoldeb danlinellu'r pwynt ynglŷn ag ystyried y meysydd hyn yn gynharach i helpu i oleuo penderfyniadau a pholisïau. Byddaf yn disgwyl gweld bod y Cydbwyllgor Corfforedig yn gwneud hyn wrth iddo ddechrau gweithredu o ddifrif.

- Mae dyletswydd ar y Cydbwyllgor Corfforedig i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Yn fwy eang, mae'r fframwaith hwnnw'n cynnig y potensial i ychwanegu gwerth at y modd y mae'n cynllunio ac yn cyflawni ei waith. Er enghraifft, manteision ehangach cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth arfer ei swyddogaethau a phwerau trafndiaeth, cynllunio a datblygu economaidd. Gallai'r Cydbwyllgor Corfforedig ei chael yn ddefnyddiol defnyddio'r ystod o adnoddau ar drafnidiaeth a chynllunio sydd ar gael ar wefan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.
- Byddaf yn disgwyl gweld y Cydbwyllgor Corfforedig yn cymhwyso'r egwyddor hon mewn ffordd ystyrlon, ar draws ei swyddogaethau. Byddaf yn cynnal archwiliadau i ganfod i ba raddau y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn blynyddoedd yn y dyfodol, fel sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf.
- Mae fy nhîm wedi datblygu rhai dangosyddion cadarnhaol sy'n darparu set enghreifftiol o nodweddion i ddangos sut y mae da yn edrych pan fo sefydliadau'n gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd y cyrff cyfansoddol yn gyfarwydd â'r rhain a bydd y Cydbwyllgor Corfforedig yn cael ei bod o gymorth defnyddio'r rhain wrth iddo gyflawni ei amcanion llesiant.

Dylai'r Cydbwyllgor Corfforedig ystyried y llythyr hwn ar y cyd â'm hadroddiad cryno, sy'n darparu asesiad o sefyllfa gyfunol y pedwar Cydbwyllgor Corfforedig.

Rwy'n bwriadu gwneud gwaith pellach dros y 18-24 mis nesaf i asesu cynnydd y Cydbwyllgorau Corfforedig.

Yn gywir



ADRIAN CROMPTON
Archwilydd Cyffredinol Cymru